

## Rhywfaint yn Gymraeg – hybu'r iaith ar ei ffiniau

Guto Davies

Eisteddfod Rhondda Cynon Taf 2024

Diolch am y gwahoddiad i fod yn siaradwr gwadd yma heddiw, anrhydedd annisgwyl a dweud y lleiaf.

Fel un sy wedi byw ym Mhontypridd ers dros ddeugain mlynedd bellach, wedi gweithio ar y rheilffyrdd hyd a lled y cymoedd, wedi magu fy mhlant Ceris a Sioned yma, wedi helpu rywfaint i fagu fy wyres Darcey, ac wedi ymwneud gyda sefydliadau lleol fel y Clwb Rygbi, Clwb y Bont ac amgueddfa lofaol Cwm Rhondda, rwy'n falch iawn fod yr Eisteddfod wedi dod i'r ardal ac yn falch ar ran y gymuned i'ch croesawu chi, Gymdeithas y Cyfieithwyr i'r maes i'r dref ac i'r ardal. Pan ges i'r alwad wrth Gwyn Williams i gymryd rhan roedd raid i fi wneud rhyw fath o double take cyflym mai Cymdeithas y Cyfieithwyr fydden i'n annerch nid Cymdeithas y Cyfreithwyr, fel un sydd a record droseddol am amryfal drafferthion mewn tafarn, paentio sloganau, a hyd yn oed tanio roced at y cyn brif-weinidog Margaret Thatcher yn ystod streic y glowyr nol yn yr 80au, ac rwy'n cymryd balchder gyda llaw, nid yn cywilyddio am y rhan fwya os nad yr oll o'r troseddau hynny. Ond fe ges i alwad yn gynharach eleni i fod ar y rheithgor yn Llys Y Goron Merthyr, am y tro cynta yn fy mywyd, felly rhyw fath o *poacher turned gamekeeper* sy'n cael ei ddwyn ger eich bron chi - yn cael ei ddwyn gerbron ei well fel petai heddiw.

Roedd hi'n dipyn o benbleth rhoi teitl ar y sgwrs rwy am ei chyflwyno, ond y dewis yn y diwedd oedd:

“Rhywfaint yn Gymraeg” hynny mewn gwrthgyferbyniad amlwg i slogan grymus Cymdeithas yr Iaith gynt “Popeth yn Gymraeg” gan adlewyrchu y frwydr i hybu'r iaith ar ei ffiniau, ar y llinell flaen fel petai, neu dir neb lle nad yw hi ar ei chryfa. Fe ofynodd Gwyn i fi yn benodol i drafod defnydd yr iaith Gymraeg yng nghlwb rygbi Pontypridd, gan i mi fod yn swyddog y wasg gyda'r Clwb am ddegawdau lawer, ac yn dal yn aelod o'r tim cyfryngau yno, ac mi wna'i fanylu ar hynny, ond mi wna'i hefyd ehangu cynnwys y sgwrs, gan roi tri phen i'r bregeth – fy nhaith iaith bersonol i, taith yr iaith yn y cymoedd diwydiannol, a thaith yr iaith mewn i ddyfodol sydd eto'n bur ansicr. Mae'r tri phen hefyd yn canolbwyntio ar dri lleoliad, y tri ar wahanol ffiniau, sy wedi bod yn hynod o bwysig i fi – Brynaman, yr Wyddgrug a Phontypridd.

Fy nhaith bersonol – fe ges i 'ngeni yn y gwter, yn llythrennol felly, yn y Gwter Fawr, pentref glofaol, Cymreig Brynaman, pentref ar y ffin rhwng cymoedd diwydiannol Morgannwg a thiroedd amaethyddol braslon Shir Gar, i'r gradde fod Brynaman Isaf ym Morgannwg a Brynaman Ucha, lle ron ni'n byw, yn Sir Gaerfyrddin a Thro'r Gwcw dros y Mynydd Du yn cysylltu'r ddau fyd. Mae soned Gwenallt i Sir Gaerfyrddin wastad wedi bod yn berthnasol i fi – “a gwyddom er y dygnu byw'n y de, gerbron tomenydd y pentrefi glo, it roi i'n sugn a maeth a golau'r ne, a'r gwreiddiau haearn ym meddrodau'r fro”. Ym meddrodau gwledig Sir Gar y mae fy ngwreiddiau haearn inne, yn ardaloedd Llanpumsaint a Nantgaredig ond ers fy ngeni ym Mrynaman, tuag at ardaloedd mwy Seisnigedig y dwyrain rwy wedi tueddu i grwydro trwy gydol fy oes. Nid fod dim byd Seisnig am bentref Brynaman pan on i'n grwt yno, i'r gwrthwyneb, pentref naturiol Gymreig o'r

lofa i'r siop i'r capel, i'r dafarn amwn i. Mae taith yr iaith ym Mrynaman wedi gweld colli tir enbyd ers hynny a brwydr yw hi erbyn hyn i amddiffyn Cymreictod naturiol pentrefi ol-ddiwydiannol gorllewin Morgannwg.

Er mod i braidd yn ifanc i amgyffred hynny ar y pryd tipyn o sioc ddiwylliannol felly oedd symud fel teulu o Gymreictod diogel Brynaman i dref y ffin arall, Yr Wyddgrug yn y gogledd dwyrain, ond tref ar y ffin y tro hwn gyda gwlad arall, Lloeger, a'r Seisnigrwydd cynhenid wedi treiddio i holl ymwybyddiaeth y lle, yn dref dipyn gwahanol i Dreflan Gymreig Daniel Owen ganrif ynghynt. Roedd yna gryfder ac angerdd dros yr iaith Gymraeg, ond angerdd lleiafrifol ac roedd yna deimlad cyson mai estroniaid yn ein gwlad ein hunain oedden ni fel siaradwyr Cymraeg. Roedd yn ddigwyddiad rheolaidd yn anffodus i fi a mrawd Sion, wrth gerdded adref o ysgol gynradd Glanrafon, i gael ein 'hambusho' (beth yw'r cyfieithiad Cymraeg o ambush?) gan blant o'r ysgolion Saesneg eu haith a hynny'n troi'n sgarmes, taflu dyrne a chicio digon mileinig ac fe gyrhaeddais i adre lawer tro yn gleisie ac yn gwte i gyd. Wel dyna frwydr yr iaith yn ei ffurf fwyaf elfennol. Efallai mai sefydlu Theatr Clwyd a chanolfan HTV yn yr Wyddgrug yn ddiweddarach a roddodd ryw fath o chwistrellaid artiffisial o Gymreictod i'r dref ac i'r ardal ac efallai'n wir mai symptom oedd hynny o'r ffordd mae'r iaith wedi llwyddo i ffynnu trwy droad y ganrif, ffyniant yn yr ysgolion, ym myd y celfyddydau ac ar y cyfryngau gyda'r perygl gwirioneddol mai ffyniant arwynebol yw hyn sydd heb dreiddio i fer esgyrn y gymdeithas a'r gymuned.

Wedi cyfnod afradlon ac aflwyddiannus braidd yn y Brifysgol yn Aberystwyth fe gychwynais ar yrfa ar y rheilffyrdd yn gweithio i British Rail ac yna Network Rail yn cynnal a chadw'r cledrau. Ym Mhontypridd yr oeddwn yn byw, wedi priodi a merch leol ac yn gweithio o wahanol leoliadau, Cyffordd Twnel Hafren, o Gaerffili, Pontypridd, Abercynon a Chaerdydd, yn graddio o fod yn 'platelayer' - gweithiwr yn y gangiau cynnal a chadw i fod yn arolygydd – section supervisor, ac yn aelod ac yn swyddog gydag undeb llafur blaengar yr NUR fel yr oedd, sef yr RMT presenol. Saesneg wrth gwrs oedd iaith naturiol y cymoedd lle'r oeddwn yn byw ac yn gweithio ond eto gydag ymwybyddiaeth digon iach o'r traddodiad Cymreig. Hyd yn oed yng Nghyffordd Twnel Hafren, lle'r oedd yr acen leol yn llawer mwy tebyg i Wlad yr Haf nag i dde Cymru, roedd yna adnabyddiaeth o Gymreictod a finne'n cael fy adnabod yn y gang fel 'Guto Nyth Bran' neu fel 'Dafis'.

Yma ym Mhontypridd y gwnes i ymwneud a'r clwb rygbi lleol, y Valley Commandos, yn gyntaf fel cefnogwr, yn mynd yn selog i wyllo pob gem gyda Sion fy mrawd, a'r ddau onono ni'n chwarae yn y rheng flaen i dim y cefnogwyr, yna fel gwirfoddolwr, fel cyfarwyddwr o Ponty Rugby Ltd ac fel swyddog y wasg am ddegawdau – wel rwy'n amcan am bron i ddeugain mlynedd. Roedd hi'n fraint cael gweithio gyda chwaraewyr o statws rhyngwladol megis Neil Jenkins, Martyn Williams, Michael Owen, Ceri Sweeney a Dale McIntosh, cael eu hadnabod fel cyfeillion a mynd ar deithiau gyda nhw. Mae yna hanesion ac atgofion difyr, a brawychus, am rai o'r teithiau hynny, ond wrth gwrs, *what goes on tour, stays on tour* a chewch chi ddim rhannu unrhyw gyfrinachau o'r byd rygbi gen i heddiw. Ymhen amser fe wnes ymdrech i gyflwyno ychydig o'r iaith Gymraeg i weithgareddau'r clwb, llunio polisi iaith swyddogol, gosod erthyglau Cymraeg ar

y wefan ac yn y rhaglen, chwarae caneuon Cymraeg dros yr uchelseinydd ar ddiwrnod y gem, a rhoi penawdau a throslaisio Cymraeg ar rai o'n ffilmiau ar y sianel you-tube Ponty TV. Os cai am funud neu ddwy dorri ar lif y sgwrs, fe allai ddangos clip o gynyrch y sianel Ponty TV wedi ei gynhyrchu i safon arbennig o uchel gyda llaw gan fachgen lleol o Aberfan a chefnogwr i'r tîm, Brychan England.

– {VIDEO} –

Gyda llaw mae cynllun BOSS Clwb Rygbi Pontypridd yn dal i fynd, gallai argymhell unrhywun sydd a diddordeb prynu cyfranddaliadau yn y clwb i wneud hynny, rych chi'n edrych yn griw eitha cefnog, rhaid bod y busnes cyfeithu ma'n talu'n dda - cysylltwch trwy wefan y clwb [www.ponty.net](http://www.ponty.net) – buddsoddiad mewn clwb rygbi cymunedol anffasiynnol. Dyna ni – rhywfaint yn Gymraeg nid popeth yn Gymraeg oedd hi yng Nghlwb Rygbi Pontypridd. Bach iawn efallai oedd effaith hyn oll ond roeddwn yn ffyddiog mai dyfal donc a dyr y garreg ac roedden ni fel clwb gam neu ddau o flaen Undeb Rygbi Cymru oedd ar y pryd yn cynnig dim arlwy Gymraeg o gwbl, ac hefyd ar y blaen i glybiau eraill ac rwy'n falch i ddweud fod rhai clybiau erbyn hyn yn cynnig llawer mwy o arlwy Gymraeg ar eu llwyfanau cymdeithasol ac mai clybiau o Went fel Casnewydd a Glyn Ebwy sydd fwyaf parod i wneud hynny. Rwy'n cofio cael cais gan gylchgrawn Golwg flynyddoedd yn ol i wneud fideo ar gyfer ei gwefan 360 – gofyn i rai o'r chwaraewyr oedd wedi bod i ysgolion Cymraeg lleol i gymryd rhan, hwythau'n ymateb na allen nhw wneud hynny, *no can do*, dim digon o hyder, finne'n dyfalbarhau, yn mynnu eu bod nhw o leia yn rhoi cynnig arni o flaen y camera. Y canlyniad oedd recordio sgwrs fywiog a hwylus, yn y Gymraeg, rhwng rhai o'r chwaraewyr, Jake Thomas a Geraint Walsh a'r holwraig Carrie Toms oedd yn ddysgwraig ifanc o deulu di-Gymraeg o'r Beddau. Dyna grisialu mewn microcosm fel petai problem yr iaith Gymraeg yn y cymoedd hyn, iaith y stafell ddosbarth, iaith swyddogol, iaith sy'n ystadegol ar gynnydd, ond iaith nad yw hi'n fyw ym mharabl y trigolion, nad yw hi'n gyfrwng naturiol yn y bywyd pob dydd ac o'r herwydd nad oes ganddi fawr o hyder. Mae na arwyddion Cymraeg nawr o amgylch y stadiwm yn Heol Sardis, mae na dermau Cymraeg yn cael eu defnyddio ar y cyfryngau cymdeithasol, mae (neu mi oedd) S4C yn galw heibio o dro i dro ac yn cynnal cyfweiliadau Cymraeg gyda chwaraewyr, ryn ni ar hyn o bryd yn cysylltu gyda'r Fenter Iaith Leol a Chomisiynydd y Gymraeg i ddiweddarau ein polisi iaith ac yn cyfrannu erthygl fisol i'r papur bro lleol Tafod Elai, ond wedyn dyna ni, Saesneg yw'r iaith naturiol ar y cae, yn y stafell newid, yn y bar wedi'r gem.

Does dim gelyniaeth at yr iaith, ond dyw hi ddim yn gyfrwng naturiol. Rwy wedi bod yn rhan o sgysiau dirifedi, ar fy aelwyd fy hunan hyd yn oed, neu mewn tafarndau lleol, tu ol i'r bar yng Nghlwb y Bont, sgysiau sy'n newid o'r Gymraeg i'r Saesneg fel petai rhywun yn bwrw switch anweledig gan nad yw'r siaradwyr, pobol ifanc ein cymuned, yn teimlo dyletswydd i siarad Cymraeg ond yn gallu gwneud hynny, ond yn y pen draw, ymhob pen draw, yr iaith Saesneg sy'n goruchafu. Fydde'n nhad weithie'n gofyn "faint o Gymry sy'n byw ym Mhontypridd?" A finne'n ateb "wel mae pawb bron yn Gymry ond y rhan fwy ddim yn siarad Cymraeg" a fynte'n cael traferth deall hynny. Mae cymoedd Morgannwg gyda'r cymunedau mwyaf Cymreig, os nad Cymraeg, o ran poblogaeth – rhaid i ni gofio fod y mewnlifo mawr wedi digwydd dros

ganrif a hanner yn ol, a phobol yn dod i weithio yn y pyle glo oedd rheini, llawer o orllewin a gogledd Cymru, a hyd yn oed y Saeson a'r Gwyddelod yn cael eu hintegreiddio i'r gymuned Gymraeg, nid prynwyr tai haf na phobol yn ymddeol neu'n dianc oddi wrth y 'rat race' yn ninasoedd Lloeger, ond gwerin bobol, proletariat newydd -anedig y chwyldro diwydiannol. Pan oedd y Steddfod Genedlaethol ddiwethaf ym Mhontypridd nol yn 1893, roedd 66% o'r boblogaeth leol yn Gymry Cymraeg naturiol, canran a blymiodd yn ddifrifol wedi hynny ond sydd erbyn hyn wedi adennill rywfaint o dir.

Yn ddiweddar fe wnes i ddarllen bywgraffiad y llenor a'r darlledwr o'r Porth, Gwyn Thomas ac roedd hanes ei deulu yn negawdau cyntaf yr ugeinfed ganrif yn rhoi golwg eglur ar ffawd y Gymraeg yn y cymoedd hyn, a'r trai difrifol a ddiodefodd ar y pryd. Roedd rhieni Gwyn yn Gymry Cymraeg, ei dad yn golier, a aned yn yr Unol Daleithiau ond y llinach yn hannu yn wreiddiol o ardal Llanddarog yn Shir Gar. Yn ystod degawd dymhestlog y 1920au roedd y diwydiant glo, a'r iaith Gymraeg yn colli tir yn enbyd. Roedd cerddoriaeth, llyfrau a ffilmiau Eingl-Americanaidd yn gynyddol boblogaidd tra fod y system addysg yn wrth-Gymreig ac o fewn un cenhedlaeth, yn llythrennol, fe gollodd teulu'r Thomases o'r Porth eu gafael ar y Gymraeg. Roedd yr rhieni a'r plant hŷn, hanner y teulu yn siarad Cymraeg ond Gwyn a'i frodyr a chwiorydd iau yn methu. "I was one of the Rhondda generation" medde Gwyn "whose language with an almost malignant ease, had changed from Welsh to English...I entered late boyhood in complete ignorance of the language my father spoke if he wanted to say anything really significant... Politics in English, gossip in Welsh and downright lies in both". Colli iaith a cholli urddas yng nghymoedd diwydiannol Rhondda Cynon Taf, dyna a fu.

Yn y canrifoedd blaenorol, yn yr un cymunedau, roedd yr iaith, tafodiaith y Wenhwyseg, yn fyw ac yn eiddo penodol i'r dosbarth gweithiol newydd ym merw'r chwyldro diwydiannol, ac o'r herwydd i raddau helaeth yn iaith gwrthdaro a gwrthryfel. Pan godwyd y faner goch ar gomin Hirwaun gan derfysgwyr Merthyr, pan ymosododd y Siartwyr ar dref Casnewydd, pan oedd y Teirw Scotch yn taro'n fileinig liw nos hyd a lled y cymoedd, Cymraeg gan amlaf oedd eu hiaith. Iaith Lewsyn yr Heliwr a alltudiwyd, iaith Dic Penderyn a grogwyd, iaith George Shell a saethwyd yn gelain gan filwyr y goron. Rwy'n aml yn ystyried ac yn gofyn unwaith eto heddiw, a oedd yr iaith Gymraeg yn fwy gwydn ac yn fwy perthnasol pan mewn gwrthdaro a'r gyfundrefn Brydeinig, nag yw hi heddiw pan yn iaith swyddogol, gyfryngol sy'n cael ei chyfieithu yng nghoridorau grym, yn ei hawddfyd?

Beth felly yw dyfodol yr iaith Gymraeg yng nghymunedau ol-ddiwydiannol y cymoedd, ar ei ffiniau gyda'r diwylliant byd-eang, cyfalafol Eingl-Americanaidd? Miliwn o siaradwyr erbyn y flwyddyn 2050? Ai siaradwyr yn y stafell ddosbarth, yn y swyddfa, dros y peiriant ateb fydd y rhelyw o'r rhain neu ai siaradwyr naturiol, yn codi peint, yn dathlu cais neu gol ar y terasau, yn rhegi mewn dadl ar y palmant, yn bloeddio mewn protest ar y llinell biced? Dyna fydd brwydr yr iaith i'r dyfodol ac mae'r her yn enfawr. Ond mi wnai orffen ar nodyn cadarnhaol. Ers gweld golau dydd gyntaf yn y Gwter Fawr, wedi'r dieithrio a'r codymau yn yr Wyddgrug, wedi'r dyfal doncio ar ran yr iaith yng nghymuned Pontypridd, rwy yn gweld newid, nawr ac yn y man yn synhwyro fod gobaiith i gael. Un o chwaraewyr ifanc Pontypridd yn fy nghyfarch wrth y bar yn y

Clwb yn Gymraeg ac yn dyfalbarhau gyda'r sgwrs, cwsmer yn codi peint yn Clwb y Bont, yn ymdrechu i wneud hynny gyda rhywfaint o eiriau anghyfarwydd Cymraeg, fy wyres ddeg oed ar ganol sgwrs whatsapp gyda ffrind yn sydyn ac yn rhwydd yn newid o'r Saesneg i'r Gymraeg, clybiau rygbi fel y sonnies i gynnu yn ardaloedd Seisnigedig Gwent yn gweld gwerth mewn cyfathrebu gyda'u cefnogwyr yn Gymraeg. Ac wrth gwrs bod yn ymwybodol o'r gwaith aruthrol sy'n cael ei wneud gan rywun fel Helen Prosser, merch leol wedi dysgu'r iaith ac sydd wedi tanio'r ymgyrch i wneud Eisteddfod Rhondda Cynon Taf yn llwyddiant, ac rwy'n siwr i hybu gwaddol holl bwysig y Steddfod yn y cymunedau hyn i'r dyfodol. Yr wythnos hon mae gigs Cymdeithas yr Iaith yn cael eu cynnal draw yn y Clwb Rygbi – Popeth yn Gymraeg, nid Rhywfaint am wythnos o leiaf, ac rwy'n siwr y bydd hynny yn creu argraff wefreiddiol ar y staff ifanc yn gweini tu ol i'r bar. Hadau gobaith, ac efallai rhyw ddydd cyn hir prin y bydd angen Cymdeithas y Cyfieithwyr yng Nghymru pan fydd yr iaith yn fyw, yn berthnasol ac yn hyderus, pan y bydd unwaith eto Popeth, nid Rhywfaint yn Gymraeg. Fy marn bersonol fel marcsydd di-gyfaddawd– bydd angen i ni unwaith eto radicaleiddio'r iaith Gymraeg, rhoi iddi chwistrellaid o adrenalin gwrth ymerodrol a gwrth Brydeinig, er mwyn sicrhau ei dyfodol. Peidiwch poeni dwy ddim am ofyn i chi ymuno a fi mewn gorymdaith o'r babel hyn i ymosod ar babel Llywodraeth Cymru, nac i danio roced at unrhyw wleidydd blaenllaw a welwn ar y maes, ddim heddiw beth bynnag. Yn hytrach i gloi gai ddymuno y gallwch fwynhau i'r eitha weddill Eisteddfod Pontypridd, Rhondda Cynon Taf ac fel y sgrifennodd Evan James gynt o'r plwyf hwn nol ym 1856 "o bydded i'r heniaith barhau".